# Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

**2013 dccc 2**

*Cyflwyniad*

VALID FROM 28/11/2013

**1 Trosolwg**

(1) Mae'r Ddeddf hon yn sefydlu cynllun sgorio hylendid bwyd i Gymru.

(2) Mae'r cynllun yn darparu bod awdurdodau bwyd yng Nghymru yn arolygu (adran 2) sefydliadau busnes bwyd yn ardaloedd yr awdurdodau ac yn llunio sgoriau hylendid bwyd y sefydliadau hynny (adran 3).

(3) Mae sgôr hylendid bwyd i'w lunio drwy sgorio safonau hylendid bwyd sefydliad yn erbyn meini prawf a gyhoeddir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ("ASB") (adrannau 3 a 4).

(4) Caiff sefydliad busnes bwyd apelio yn erbyn ei sgôr hylendid bwyd a rhoi sylwadaethau arni (adrannau 5 a 11).

(5) Rhaid i awdurdod bwyd hysbysu'r ASB am sgôr hylendid bwyd sefydliad yn ei ardal, a rhaid i'r ASB gyhoeddi'r sgôr (adran 6)

(6) Rhaid i sefydliad busnes bwyd hysbysu'r cyhoedd am ei sgôr hylendid bwyd (adrannau 7 ac 8).

(7) Mae methu â hysbysu'r cyhoedd yn drosedd, y gellid ei chosbi drwy ddirwy neu gosb benodedig (adran 9, adrannau 19 i 22 a'r Atodlen).

(8) O dan amgylchiadau penodol caiff sefydliad busnes bwyd ofyn am ailsgoriad (adran 12).

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 04/05/2013. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Adran 1. (See end of Document for details)*

(9) Mae pwerau a chyfrifoldebau awdurdodau bwyd a'r ASB a chyfrifoldebau gweithredwyr sefydliadau busnes bwyd wedi eu nodi yn adrannau 14 i 16.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 04/05/2013. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Adran 1.